

Rheolau a Chanllawiau Amlosgi

Gofynion yr arch

Dylai'r eirch fod wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol megis pren, pren haenog, gwiall neu gardfwrdd. Mae angen i eirch gwiall fod â sail bren, solet a fflat heb unrhyw redwyr. Dylai'r eirch pren neu is-gynnyrch pren fod yn hawdd i'w hylosgi. Bydd angen archwilio eirch cardfwrdd.

Ni ddylai'r eirch fod ag unrhyw fetel ynddynt, oni bai am fetel fferrus uchel megis haearn, a dim ond pan fo angen er mwyn sicrhau eu bod nhw'n ddiogel. Nid oes modd amlosgi eirch wedi'u leinio â sinc neu blwm.

Gellid gosod stripiau pren ar hyd gwaelod yr arch, ond ni chaniateir darnau croes. Ni ddylech baentio na rhoi farnais ar yr arch. Os ydych am bersonoli'r arch, mae modd ei orchuddio gyda chadach addas fydd yn cael ei dynnu cyn yr amlosgi.

Ni ddylid defnyddio cynnyrch yn cynnwys PVC. Mae modd defnyddio polystyren ar gyfer plac enw'r arch, ac ni all fod yn drymach na 90g.

Bydd angen i eirch sy'n lletach na 71cm, yn ddyfnach na 48cm ac yn hirach na 198cm fodloni amodau arbennig er mwyn bodloni telerau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn pan fyddwch yn gwneud cais.

Ni ddylai leinin yr arch gynnwys unrhyw flawd llif, gwlân cotwm na phapur. Os oes angen, mae modd defnyddio deunydd selio ond ni ddylai gynnwys rwber, PVS neu byg.

Peidiwch â rhoi eitemau yn yr arch oni bai ein bod ni wedi'u cymeradwyo.

Ni ddylai eirch a chistanau gynnwys unrhyw beth all ffrwydro, er enghraifft erosolau na gwydrau. Mae'r eitemau hyn yn creu risg wych i'n staff. Dylid gwaredu castiau plastr hefyd.

Mae'n rhaid i'r arch fod ag enw ac oedran y person sydd wedi marw, fydd yn cael ei wirio gennym ni pan fydd cortege yr angladd yn cyrraedd. Bydd y gwasanaeth amlosgi'n darparu elor ar gyfer cario'r arch i gataffalc y capel, ond mae angen i'r cyfarwyddwr angladdau sicrhau bod digon o gludwyr ar gyfer yr arch. Mae unrhyw alarwr sy'n cynorthwyo wrth gario'r arch yn gwneud hynny ar eu liwt eu hunain ac ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw anafiadau.

Unwaith y mae'r arch wedi'i roi ar y cataffalc, mae'n gyfrifoldeb ar Amlogfa Llangrallo.

Bod yn dyst i amlosgi

Os ydych am weld yr amlosgiad, cysylltwch â ni cyn diwrnod yr angladd a byddwn yn trefnu hyn ar eich cyfer.

Gweddillion wedi'u hamlosgi

Gallwn ryddhau gweddillion wedi'u hamlosgi o 10am dau ddiwrnod gwaith ar ôl yr amlosgiad. Mae gennym ddetholiad bychan o gynwysyddion amlosgi, neu gall y cyfarwyddwyr angladdau ddarparu dewis amgen. Mae'n rhaid i'r cynhwysydd fod ag enw llawn y person sydd wedi marw arno.

Gallwn roi'r gweddillion wedi'u hamlosgi i'r cyfarwyddwr angladdau penodol, yr ymgeisydd ar gyfer amlosgi neu'r cynrychiolydd penodol. Mae'n rhaid i'r derbynneb gael ei lofnodi a bydd Tystysgrif Amlosgi'n cael ei chyflwyno. Byddwn yn cadw'r gweddillion wedi'u hamlosgi am un mis o ddyddiad yr amlosgiad. Ar ôl hyn, byddwn yn rhoi'r gweddillion i'r cyfarwyddwr angladdau. Bydd yn ddefnyddiol pe byddai'r ymgeisydd ar gyfer amlosgi yn dweud wrthym beth y maen nhw'n bwriadu ei wneud pan fyddant yn ymgeisio.

Gweddill metel

Mae Amlosgfa Llangrallo'n rhan o gynllun ailgylchu amlosgfeydd rhyngwladol ar gyfer metel sy'n weddill ar ôl amlosgi. Cânt eu hailgylchu a mae'r holl elw'n mynd i elusennau profedigaeth.

Datgladdu

Weithiau, bydd teuluoedd yn gwneud cais i ddatgladdu gweddillion wedi'u hamlosgi. Cysylltwch â ni os ydych am gael cyngor ar hyn. Caiff hyn ei lywodraethu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a bydd angen cydsyniad y perthynas agosaf, ynghyd â pherchennog y llain, y tir neu'r bedd ar gais am Drwydded Ddatgladdu.

Lledaenu gweddillion

Mae gan yr Ardd Gofio lawntiau, planhigion, blodau, llwyni a choed, sy'n cynnig lleoliadau heddychlon gyda llwybrau a seddi. Gofalir am yr ardd fel cofeb barhaol i'r rheiny sydd wedi'u gwasgaru yma.

Caiff y gweddillion sydd wedi'u hamlosgi eu rhannu dros wyneb y lawntiau unigol, y drydedd wythnos ar ôl y gwasanaeth amlosgi. Gall y teulu wylïo gweddillion eu hanwylïad yn cael eu gwasgaru. Gallent hefyd ddewis pa lawnt sy'n cael ei ddefnyddio.

Os yw'r ymgeisydd am wylïo'r gweddillion yn cael eu gwasgaru, dylent wneud apwyntiad yn ystod ein horïau agor, a bydd rhaid talu am hyn. Os digwyddodd yr amlosgiad mewn amlosgfa arall, mae'n rhaid i ni dderbyn y gweddillion, y Dystysgrif Amlosgi, cais ysgrifenedig a ffi cyn dosbarthu.

Os ydych am ddosbarthu mewn iard eglwys, mynwent neu dir preifat, sicrhewch fod gennych ganiatâd perchennog y tir.

Ardal lawnt dosbarthu

Mae iard ganolog sydd â chofebïon i'r rheiny sydd wedi'u gwasgaru yno. Er na allwn ganiatáu blodau ar y lawntïau, efallai y byddwch yn gallu gosod blodau ar rai cofebïon neu yn y Capel Cofïo.

Claddu gweddillion wedi'u hamlosgi

Mae ardal ddynodedig lle gallwch gladdu'r lludw. Mae wedi'i thirweddu'n hardd iawn a gallwch gael mynediad ati drwy lwybr o goed ceirïos gyda'i faes parcïo ei hun.

Mae gan y lleinïau claddu blinthïau gwenithfaen gyda hyd at dri o blacïau cofïo. Mae dau fâs blodau ar gyfer bob plinth ac mae modd rhoi hyd at dair chyfres o ludw y tu mewn. Golyga hyn bod modd rhoi dwy gyfres arall o weddillion ynddo ar ôl y claddu gwreiddïol.

Dylech roi blodau yn y fasys a ddarperir yn unig.

Gofynïon cyfreithïol

Mae'r amlosgfa'n aelod o Awdurdod Ffederasiwn Claddu ac Amlosgi, ac mae'n dilyn ei God Ymarfer Amlosgi. Rydym yn cydymffurfïo â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac yn cael ein profi'n aml gan swyddogïon iechyd amgylcheddol i sicrhau ein bod ni'n dilyn y rheoliadau hyn. Mae gennym ni ddwy ffwrnais o faint bariatrig sydd wedi'u tawelu'n llawn i gydymffurfïo â'r rheoliadau amgylcheddol llymaf. Rydym yn monitro allyriadau bob amlosgiad ac yn sicrhau mai dim ond deunyddïau naturïol sy'n cael eu rhoi mewn arch.